

SIARTER
TRAWS*NEWID CYMRU



SIARTER TRAWS*NEWID

PROSIECT TAIR BLYNEDD O HYD SY’N CAEL EI ARIANNU GAN LYWODRAETH CYMRU YW TRAWS*NEWID CYMRU. EI NOD YW YMBWERU A CHYNORTHWYO POBL IFANC DRAWS* I GYRCHU EU HAWLIAU, A CHYNORTHWYO SEFYDLIADAU IEUENCTID I FYND I’R AFAEL Â’R GWAHANIAETHU A’R ALLGAU Y MAE LLAWER O BOBL IFANC DRAWS* YN EI WYNEBU.

Pobl ifanc draws* o Grŵp Llywio’r prosiect sydd wedi datblygu’r Siarter, a hynny’n unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

Mae’r Confensiwn yn amddiffyn hawliau pobl ifanc hyd at 18 oed. Mae 54 erthygl yn y Confensiwn, ac mae 42 o’r rhain yn hawliau sy’n perthyn i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud y Confensiwn yn rhan o’i chyfraith ddomestig ar ffurf Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011).

MAE [ENW’R SEFYDLIAD] YN YMRWYMO I SICRHAU BOD HAWLIAU POBL IFANC DRAWS* YN CAEL EU PARCHU YN UNOL Â’R SIARTER.

■ **MAE GAN BOBL IFANC DRAWS* YR HAWL I GAEL EU CLYWED A CHAEL EU CYMRYD O DDIFRIF GAN WEITHWYR PROFFESIYNOL. ERTHYGL 12 O’R CONFENSIWN**

MAE [ENW’R SEFYDLIAD] YN YMRWYMO I:

CYmgynghori â phobl ifanc draws a chymryd eu safbwyntiau i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau*

Ymddiried mewn pobl ifanc draws i adnabod eu rhywedd a’u hunaniaeth*

Cydnabod effaith dysfforia ar hunanbarch, iechyd meddwl a chyfranogaeth ac ymgysylltiad pobl ifanc mewn gweithgareddau

Caniatáu amser iddynt fynychu apwyntiadau meddygol.

■ **MAE GAN BOBL IFANC DRAWS* YR HAWL I GAEL PARCH I’W HUNANIAETH A CHAEL EU CYFARCH GAN DDEFNYDDIO’R ENWAU A’R RHAGENWAU CYWIR. (ERTHYGL 7)**

MAE [ENW’R SEFYDLIAD] YN YMRWYMO I:

Barchu hunaniaeth pobl ifanc a defnyddio’u henwau a’u rhagenwau dethol (dim ots a yw’r person ifanc wedi newid ei enw’n gyfreithiol ai peidio)

Llunio a defnyddio ffurflenni sy’n cydnabod hunaniaethau traws ac anneauaid ac sy’n caniatáu lle iddynt nodi eu hunaniaethau eu hunain*

IECHYD

HAWLIAU

DEUAIDD

YMBWERU

GWAHANIAETHU HUNANIAETH ADDYSG IECHYD RHYWEDD ADNODDAU IFANC HAWLIAU YMGYNGHORI TRAINING IEUENCTID

Peidio â rhagdybio rhywedd neu ragenwau pobl yn seiliedig ar eu mynegiant rhyweddol, a chreu cyfleoedd i bobl rannu eu henwau a'u rhagenwau

Osgoi cwestiynau sy'n rhy bersonol, a pharchu preifatrwydd y bobl ifanc heb wneud rhagdybiaethau am lwybrau trawsnewid neu lawdriniaeth.

■ **MAE GAN BOBL IFANC DRAWS* YR HAWL I GYRCHU CYFLEUSTERAU SY'N BRIODOL I'W RHYWEDD (ERTHYGLAU 15, 28)**

MAE [ENW'R SEFYDLIAD] YN YMRWYMO I:

Gynorthwyo pobl ifanc draws i gyrchu cyfleusterau sy'n cyd-fynd â'u hunaniaeth ryweddol*

Gweithio tuag at ddarparu ystafelloedd newid a thai bach rhywedd niwtral

Bod yn ymwybodol o anghenion pobl ifanc draws wrth drefnu gweithgareddau preswyl a/ neu aros dros nos*

■ **MAE GAN BOBL IFANC DRAWS* YR HAWL I DEIMLO'N DDIOGEL AC I BEIDIO Â CHLYWED IAITH DRAWSFFOBIG A GWAHANIAETHOL (ERTHYGL 19)**

MAE [ENW'R SEFYDLIAD] YN YMRWYMO I:

*Hyfforddi'r staff er mwyn sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn deall beth yw iaith ac ymddygiad trawsffobig, ac effaith bosibl hyn ar bobl ifanc draws**

Herio ystrydebau er mwyn atal pethau rhag dwysáu i fwlio neu droseddau casineb

Cymryd iaith a bwlio trawsffobig yr un mor ddifrifol â bwlio corfforol, a chydabod bod y defnydd o iaith yn gallu peryglu bywydau

Creu patrymau ymddygiad traws ac addysgu pobl ifanc cisryweddol am hunaniaethau traws* a throeddau casineb*

Codi'r mwstwr o natur trawsnewid er mwyn creu amgylchedd diogel lle mae hawliau a phreifatrwydd pobl draws yn cael eu parchu*

Sicrhau bod achosion o fwlio trawsffobig yn cael eu monitro a'u cofnodi, a hynny ar wahân i ddioglyddiadau homoffobig

Cynorthwyo pobl ifanc draws i gydnabod a chofnodi troseddau a digwyddiadau casineb.*

■ **MAE GAN BOBL IFANC DRAWS* YW HAWL I BREIFATRWYDD A DIOGELWCH (ERTHYGL 16)**

MAE [ENW'R SEFYDLIAD] YN YMRWYMO I:

Sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu newid, a taw'r unigolion perthnasol yn unig sy'n cael gwybod am statws traws y bobl ifanc*

Cydnabod y gall datgelu beryglu bywydau

■ **MAE GAN BOBL IFANC DRAWS YR HAWL I DYFU I FYNY I FOD YN IACH (ERTHYGL 6)**

MAE [ENW'R SEFYDLIAD] YN YMRWYMO I:

Gydnabod nad problem iechyd meddwl yw bod yn draws, ond deall effaith bosibl gwahaniaethu a dysfforia ar iechyd meddwl*

Hyrwyddo gweithgareddau diogel a chynhwysol er mwyn hybu ffordd iach o fyw, wrth fod yn

*ymwybodol bod nofio, gweithgareddau mewn campfeydd, gwersylla/heicio, aros oddi cartref yn gallu achosi pryder i bobl ifanc draws**

Bod yn ymwybodol o rwymo, twcio ac ati, ac effaith y rhain ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl ifanc.

■ **MAE GAN BOBL IFANC DRAWS* YR HAWL I GAEL GWYBODAETH, CYNGOR, CYMORTH AC EIRIOLAETH PRIODOL A PHERTHNASOL (ERTHYGL 13)**

MAE [ENW'R SEFYDLIAD] YN YMRWYMO I:

Sicrhau bod cymorth a gwybodaeth cynhwysol a phriodol ar gael am iechyd rhywiol, tai a throseddau casineb.

■ **MAE GAN BOBL IFANC DRAWS* YR HAWL I GAEL CYNGOR, CYMORTH A GWYBODAETH YN IAITH EU DEWIS (ERTHYGL 30)**

MAE [ENW'R SEFYDLIAD] YN YMRWYMO I:

Hyrwyddo terminoleg LGBT priodol yn Gymraeg a Saesneg

Sicrhau bod pobl ifanc draws yn gallu cydnabod eu hunaniaeth yn iaith eu dewis.*

HUNANIAETH